ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 1 Cyfrol 12 Ionawr 2015

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

HWYL Y NADOLIG

DIOLCH AM WASANAETH Y GWEINIDOG

ADRODDIADAU A LLUNIAU O'R TRI CHAPEL



GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
11.00: YSGOL SUL YR OEDOLION **5.30:** OEDFA'R NOS

Chwefror	**1**	Parch. Eric Jones *Cymun Oedfa'r Bore*
	8	Parch. Hugh Pritchard
	15	Parch. Cledwyn Williams *5.30*
	22	Parch. Gwyndaf Jones
Mawrth	**1**	*Gwasanaeth Teuluol*
	8	Mr. Glyn Owen
	15	Parch Dr Gareth Lloyd Jones: *10.00*
	22	*Oedfa'r Plant: 10.00* *Undebol*: *5.30*
	29	Parch. Adrian Williams
Ebrill	**5**	**(Pasg)** Parch. Trefor Jones: *10.00*
	12	Parch. Harri Parri
	19	Parch. Eric Jones *Cymun Hwyr*
	26	Parch. Cledwyn Williams *10.00* *Undebol: 5.30*

DYLETSWYDDAU (BLAENOR Y PYTHEFNOS)

Chwefror	**1**	Menna Baines
	8	Elizabeth Roberts
	15	Elizabeth Roberts
	22	Gareth Emlyn Jones *Undebol Hwyr*
Mawrth	**1**	Gareth Emlyn Jones
	8	Gwenno Pritchard
	15	Gwenno Pritchard
	22	Eirian Howells *Undebol Hwyr*
	29	Eirian Howells
Ebrill	**5**	**PASG** Alwyn Lloyd-Ellis
	12	Alwyn Lloyd-Ellis
	19	Robat Roberts
	26	Robat Roberts *Undebol Hwyr*

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

1 Chwefror	Gwenno Pritchard
8 Chwefror	Meira Jones
15 Chwefror	Astra Thomas
22 Chwefror	Manon Davies
1 Mawrth	Elizabeth Evans
8 Mawrth	Beryl Stafford Williams
15 Mawrth	Eleri W. Jones (Bedwyr)
22 Mawrth	Betty Thomas
29 Mawrth	Val P. Jones
5 Ebrill	C. Frazer Jones
12 Ebrill	Laura Lewis
19 Ebrill	Sioned Jones (Goleufryn)
26 Ebrill	Menna Baines
3 Mai	Enyd Roberts

YCHYDIG O NEWYDDION

Yn y rhifyn diwethaf o *Ichthus* fe soniais ein bod yn disgwyl am ganiatâd y Sasiwn er mwyn symud ymlaen i alw gweinidog. Fe gafwyd y caniatâd angenrheidiol yn ystod mis Hydref. Y cam nesaf oedd gofyn i dair egwys yr Ofalaeth godi aelodau i fod ar y Pwyllgor Bugeiliol i gydweithio efo'r blaenoriaid wrth drafod y ffordd ymlaen. Cafwyd etholiad ym Merea Newydd yn ystod mis Rhagfyr i ddewis yr aelodau ychwanegol. Etholwyd pum aelod i'r Pwyllgor Bugeiliol, sef Geraint Percy Jones, Parch. Alwyn Roberts, Bethan Whittall, Glyn Lloyd Jones a Llion Jones.

Mae'r ddwy eglwys arall (sef Bethlehem, Abergwyngregyn a Bethania, Felinheli) wedi cael cyfle i ddewis aelodau hefyd. Erbyn i chi ddarllen y rhifyn yma o Ichthus bydd y Pwyllgor Bugeiliol wedi cyfarfod am y tro cyntaf a chynrychiolwyr o'r Henaduriaeth hefyd yn bresennol i weld bod y cyfan mewn trefn. Mae'n debyg mai'r cyfarfod cyntaf o nifer fydd hwn ond hyderwn y daw gweledigaeth am y ffordd orau i symud ymlaen.

Bu diwedd y flwyddyn yn gyfnod anodd i nifer o'n haelodau. Mae amryw mewn ysbytai neu yn gaeth i'w cartrefi ac anfonwn ein cofion at bawb ohonoch sydd wedi gweld colli'r capel a ninnau yn gweld eich colli chithau o'r oedfaon.

Cafwyd colledion hefyd o blith ein haelodau. Cydymdeimlwn yn fawr â theuluoedd Mrs Gwenno Parry (Ffordd Hwfa), Dr Gwyn Chambers (Ffordd Penrhos) a Mr Alun Williams (Eiral, Ffordd Penrhos). Ac wrth i'r Flwyddyn Newydd agor daeth y newydd am farwolaeth Mrs Tudwen Jones o Lanfairpwll.

Gwelir bwlch mawr ar eu holau yn yr eglwys ond yn bennaf, wrth gwrs, gwelir y golled ar eu haelwydydd.

'Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro'.

Diolch i chi i gyd am eich haelioni arferol yn ystod y flwyddyn. Bu nifer ohonoch yn gyfranwyr cyson i focs y Banc Bwyd a diolch i Delyth Oswy Shaw am ei wagio'n gyson a chludo'r cynnwys at y ganolfan ddosbarthu yn y Gadeirlan.

Cafwyd amryw o gasgliadau eraill tua diwedd y flwyddyn. Cafwyd cyfanswm o £763 at Apêl Cymorth Cristnogol (Syria, Irac a Gaza) a wnaed yn ystod Sul yr Oedfa Ddiolchgarwch a'r Cyfarfod Gollwng. Roedd y casgliad yn ystod Cyfarfodydd Nadolig yr Ieuenctid a'r Plant yn £311 a hyn yn mynd at Apêl Awyr Las sef casgliad i drin canser trwy Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Yn ystod y flwyddyn fe gyfrannwyd yn gyson at gasgliad Dorcas (wedi'r Gwasanaeth Cymun) i gynorthwyo achosion lleol ac fe rannwyd y cyfanswm o £327 ar ddiwedd y flwyddyn rhwng tri achos lleol sef y Cinio Nadolig i rai sydd yn unig a gynhaliwyd yng Nghanolfan Coed Mawr, cymorth i blant gydag Awtistiaeth a'r Banc Bwyd lleol. Diolch i bawb am eu haelioni.

Gair i'ch atgoffa hefyd bod copïau DVD o'r Oedfa Ddiolchgarwch a'r Cyfarfod Gollwng ar gael, y pris yn £5 yr un. Hefyd mae CD ar gael i'w fenthyg o'r Cyfarfod Gollwng os hoffai rhywun wrando ar y gwasanaeth. Cysylltwch â mi os am fenthyg neu brynu.

Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch.

Cynthia Owen (01248 364008)

DIOLCH AM WASANAETH GWEINIDOG

AR YMDDEOLIAD EIN GWEINIDOG, Y PARCH ERIC JONES, CYNHALIWYD CYFARFODYDD I DDIOLCH IDDO AM EI WASANAETH DIFLINO YN YR OFALAETH. DYMA LUNIAU AC ADRODDIADAU O'R TRI CHAPEL

DIOLCHGARWCH ABERGWYNGREGYN

Daeth tua hanner cant i'r Gwasanaeth o Ddiolch yn Abergwyngregyn brynhawn Sul, 12 Hydref, gyda'r plant ac eraill yn cymryd rhan. Siaradodd un o'r blaenoriaid, sef Mr Gwilym Roberts, yn hwyliog yno (yn ogystal ag yn y Cyfarfod Gollwng ym Merea) am amheuaeth y gweinidog o'r syniad o gynnal y ras hwyaid flynyddol, ac yntau heb sylweddoli mai rhai plastig a ddefnyddid! Gyda dwyster mawr y siaradodd am ofal y gweinidog tros ei deulu tra yn yr ysbyty, ac fel y bu i'w fam gredu bod y Cymun a gafodd ganddo tra oedd hithau yn yr ysbyty wedi ymestyn ei hoes am bedair blynedd arall! O gofio mai dim ond 19 aelod sydd yn Aber, roedd y nifer a ddaeth i'r Diolchgarwch yn dweud cymaint am barch y gymuned gyfan tuag at weinidog mor ymroddedig.

Cara yn cyflwyno Blodau i Val yn Aber

DIOLCHGARWCH BETHANIA, Y FELINHELI

IEUAN ROBERTS

Diolchwn heddiw am gael gweinidog am y 15 mlynedd diwethaf. Diolch am ei waith trylwyr a threfnus drosom – ac yn arbennig am ei bwyllgorau awr!

Efallai mai Eric fydd gweinidog olaf yr ofalaeth yma. Diolchwn iddo am ddod i adnabod anffurfioldeb pobol Felin yn eu 'jeans'. Diolchwn iddo am y ffordd y mae wedi gwneud i ni deimlo yn sbeshial pan oedd yn bedyddio ein plant neu yn derbyn ein pobol ifanc neu yn ein priodi.

Diolchwn am ei waith bugeiliol yn ymweld â chleifion yn yr ysbyty neu yn ymweld â'r unig

yn eu cartrefi. Nid pob gweinidog sydd yn gwneud hyn y dyddiau yma.

Diolchwn iddo am yr urddas y mae'n ei arddangos mewn angladdau.

Diolchwn iddo am baratoi ei wasanaethau mor raenus ac yn arbennig am wasanaeth cofiadwy Gŵyl Felin 2014 yn y marcî.

Diolchwn am Weinidog sydd wedi hau yr hadau ar gyfer y dyfodol.

"Ac y mae eraill sy'n derbyn yr had ymhlith y drain: dyma'r rhai sydd wedi clywed y gair, ond y mae gofalon y byd hwn a hudoliaeth golud a chwantau am bopeth o'r fath yn dod i mewn ac yn tagu'r gair, ac y mae'n mynd yn ddiffrwyth. A dyma'r rheini a dderbyniodd yr had ar dir da : y maent hwy'n clywed y gair ac yn ei groesawu, ac yn dwyn ffrwyth hyd ddeg ar hugain a hyd drigain a hyd ganwaith cymaint." *MARC 4, 18-20*

Y mae ein Gweinidog wedi sicrhau pwysigrwydd dyfodol yr eglwys trwy annog yr ifanc i ddod i'r capel ac i gymryd rhan.

Diolchwn iddo am hau'r hadau trwy sicrhau mwy o flaenoriaid a swyddogion. Diolchwn am ei waith yn sicrhau arian i gynnal yr achos yma.

Diolchwn i Val, ei wraig, am fod yn gefn iddo drwy'r cyfan ac am ddod i adnabod llawer ohonom er ei bod yn byw ym Mangor.

Rhai o swyddogion Bethania yn y Gwasanaeth Diolchgarwch fore Sul, 12 Hydref, lle'r oedd dros 60 yn bresennol.

Dywedais ei fod yn weinidog trefnus a thrylwyr. Y mae o hefyd wedi bod yn weinidog teyrngar. Bu'n deyrngar i'w braidd ond yn bwysicach yn deyrngar i Dduw sydd wedi sicrhau ei fod wedi gallu ein gwasanaethu yn y ffordd orau posibl.

Dymunwn y gorau iddo fo a Val i'r dyfodol ac ymddeoliad hapus iawn i chi.

CYFARFOD GOLLWNG CAMPUS

MALDWYN THOMAS

Y rhai a gymerodd ran yn y gwasanaeth 'Gollwng a Diolch' – un o bedwar gwasanaeth a gynhaliwyd i ddiolch ac i fynegi gwerthfawrogiad. Mewn cyfnod o bum mlynedd ar hugain aeth gofalaeth Eric o ddwy eglwys i bump ac o'r pump i un eglwys unedig ym Merea Newydd a agorwyd yn Ionawr 2003.

P'nawn dydd Sul llwyd ym Mangor ar Hydref 19eg, ond y mae hi'n ddisglair ym Merea Newydd, y capel yn orlawn ar achlysur gollwng y Parchedig Eric Jones ar ôl un a deugain mlynedd yn y gwaith – y rheini wedi'u rhannu rhwng Llansannan a Bangor. Mae'r cyfarfod wedi ei rannu, y rhan gyntaf o dan ofal Eric Jones a Chôr Seiriol, yn cyflwyno cywydd o waith yr Athro Peredur Lynch a'r defosiwn yn nwylo y Parchedigion Cledwyn Williams ac Olaf Davies. Yn y canol y mae seremoni'r Gollwng a Llywydd yr Henaduriaeth, y Parchedig Gwenda Richards a'r Parchedig Ddr Alwyn Roberts, sydd yn weithredol yma. Mae'r rhan olaf o dan ofal John Wynn Jones, Llywydd yr Ofalaeth, a cheir cyfraniadau siriol a brwdfrydig gan y tair eglwys sydd yn rhan o'r teulu. O Aber, yn y dwyrain, fe geir ffarwelio hyfryd gan Gwilym Roberts a Manon ac Iwan Williamas. O Fethania yn y gorllewin, ac Ieuan Roberts yn arwain ac Osian Wyn Owen yn cyfrannu, a Mel a Shiwan a Llywelyn – aelodau'r dosbarth derbyn olaf – pob un â'i ran. Campus eto. Ac o Ferea Newydd yn y canol a chyfraniadau Dafydd Wyn, Llion Williams a Maldwyn Thomas. Gair byr ar ran Cytûn gan Dr Sara Jackson a gair o ddiolch gan y Parchedig Ddr Elwyn Richards ar ran Llysoedd y Cyfundeb.

'Diolch Eric Jones' oedd testun cân y plant yn Oedfa'r plant a'r ifanc yn y bore, lle'r oedd diolch am waith bugail wedi'i weithio i mewn yn gelfydd i thema'r diolchgarwch arferol.

Mae Eric wedi bod yn weinidog gofalus a phryderus a'i ofal am y Tŷ yn ddi-ben-draw. Menter ysbrydol ddeng mlynedd yn ôl oedd codi Berea Newydd ar seiliau nifer o gapeli yn hanes

Presbyteriaeth Arfon. Mae Eric yn gweithio yn ddiarbed ac yn bresennol ym mhob cyfarfod. Cyfieithwyr, contractwyr, penseiri; mae Eric yn tyrchu am hen garantîs o gypyrddau hynafol - ac yn cynllunio cynlluniau newydd sbon ar gyfer yr achos newydd. Ddoe a heddiw y fenter ysbrydol ym Merea Newydd. A'r eglwys yn y canol. Sefydlu cylchgrawn chwarterol ar gyfer yr ofalaeth er mwyn i'r aelodau adnabod ei gilydd, er mwyn ansawdd y seiliau. Pregethu graenus - a heriol - yn aml, cynnal seiadau ac ymweld. Caplaniaeth Ysbyty Gwynedd a chynnig y cymun i eneidiau bregus. A Val efo fo. Pob amser - Val. Yn gynnes, yn annwyl, yn hwyliog. Val ac Eric. Eric a Val. Diolch i chi, Mr a Mrs Jones.

Eric Jones, yn naturiol sydd piau'r gair olaf, a braf ydi gweld Pryderi a Nia a'r lodesi Efa a Non o Lantwymyn yma, a Nia a Pheredur, Llio a Bedwyr o Eithinog - pob un ym mharti pen-blwydd Nain a Taid. Menna Leyshon ydi'r organydd, ac yn sŵn llawen y canu y mae yna symud am y festri a'r arlwyo mawr. Mae'r casgliad, sydd yn un anrhydeddus, yn mynd at waith Cymorth Cristnogol yn Syria ac Irac a llain Gasa. A dyma gyfnod yn dod i ben. I Dduw y bo'r diolch am y cyfan a gafwyd.

CYFARCHION Y BEIRDD

Derbyniwyd nifer o englynion i ddymuno'n dda i'r Parchedig Eric Jones a'i wraig Val. Fe'u darllenwyd yn rhagorol yn y Gwasaneth Gollwng gan Llion Williams.

HEDD BLEDDYN

Yn burion yn Berea - ei orau
Rodd Eric i'w dyrfa;
A daw mwy i'w dyddiau da
A'u hymddeol - hamddena.

LYNN DAVIES

Cyfarch gweinidog parchus a wnawn ni -
Hynny yw ewyllys
Ei aelodau dyledus
A llon flaenoriaid 'y Llys'.

Y PARCHEDIG JOHN GWILYM JONES

O'i wirfodd rhoes ei yrfa, - i wylio
Dros aelwyd ac oedfa,
Ac o'i oes deg daw gwas da
I haeddiannol hamddena.

LLION JONES

Rhoi'r cyfan mewn gwasanaeth a wnaethost
A hithau'r ofalaeth
Yn ddi-feth a ddygodd faeth
O degwch gweinidogaeth.

GERAINT PERCY JONES

Rhoi ei oes i eiriau'r Iesu. - Yn rhwyd
Gwaredwr ein caru,
Ac yn ddyfal gofalu
Esmwythâu ein dyddiau du.

I'r claf rhoi gydag afiaith - yr hyder
I rodio mewn gobaith
Y daw cyn diwedd y daith
Yr hen hwyl i'w rhan eilwaith.

Yn rhwydd fe fu ailwreiddio - ac Eric
Mor ddiguro'n llwyddo
A'i ddawn unwedd i'n huno
Ar ein taith o dan 'r un to.

Wrth angor dy gynghori - arhosaf
A'r Iesu yn gwmni,
Pan fo pryder yn berwi
Dewr a doeth dy eiriau di.

Gwernyfed
Penrhosgarnedd
27 Hydref 2014

Annwyl Ffrindiau,

Doedd gennyf ddim llawer o syniad beth i'w ddisgwyl ar adeg o ymddeoliad ac, yn sicr, ni ragwelais y byddai hynny yn ennyn y fath ymateb gan lu o ffrinidau o bob rhan o Gymru. Cefais gyfle i ddiolch i'r ugeiniau a gododd y ffôn, ond prysuraf i ddiolch yn ddiffuant iawn hefyd i bawb am eu e-byst, llythyrau, englynion, cardiau dirifedi a'r rhoddion hael.

Ni freuddwydiais y byddai cymaint yn bresennol yn y Gwasanaethau o Ddiolch gan y plant a'r ieuenctid a gynhaliwyd ym Methania y Felinheli, ac Abergwyngregyn, ac yna ym Merea Newydd. Ond y goron ar y cwbl oedd gweld y capel yn orlawn yn Y Gollwng a'r Diolch ym Merea Newydd. Roedd yn brofiad bythgofiadwy. Ymhlith y gynulleidfa luosog roedd o leiaf ugain o'm cyn-Ofalaeth, o Lansannan a'r cylch. Rhyfeddais eu bod yn cofio amdanom chwarter canrif yn ddiweddarach!

Dymuna Val a minnau ddiolch o waelod calon i bawb am bob amlygiad o "barch a chariad", sef y geiriau a glywsom mor aml yn ystod yr achlysur. Geiriau sydd, gobeithio, yn dweud rhywbeth am y modd y bu i ninnau geisio gwasanaethu am dros ddeugain ac un o flynyddoedd.

Can mil o ddiolch i bawb.

Yn ddiffuant,
Eric Jones

O.N. Diolch hefyd am y casgliad hael o dros £700 a gafwyd ar Sul y Gollwng (19 Hydref 2014) tuag at Apêl Cymorth Cristnogol, Gaza, Syria ac Irac.

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org / www.henaduriaetharfon.org

CHWIP O BARTI!

Ar nos Lun gynta'r gwyliau cawsom barti Ysgol Sul. Daeth tua deugain o blant i gyd. Sôn am sŵn wrth i'r cracers gael eu tynnu. Roedd llwyth o fwyd ar ein cyfer, creision, sosejys, cacennau, bisgedi a llawer mwy. Ar ôl i bawb lenwi eu boliau, aethom i'r festri i gael ein diddori.

Sioe hud a lledrith gan y Dewin Robert Jones oedd yr adloniant. Cafodd llawer ohonom ei helpu gyda'r triciau a chael balŵn siâp anifail yn wobr. Roedd pawb yn gweiddi'r geiriau hud

Adroddiad LLIO EURGAIN

'WIBLI-WOBLI' nerth esgyrn eu pennau. Fy hoff dric oedd gweld gwydryn o ddŵr oer yn cael ei ddal wyneb i waered uwch ben un o'r tadau.

Canodd pawb 'Pwy sy'n dŵad dros y bryn...' dros y lle ac ymddangosodd Siôn Corn gyda'i gorrach bach sef Lois. Siocled oedd yr anrheg i bawb i'n cadw i fynd tan y Nadolig. Dyna be oedd chwip o barti, diolch i bawb am drefnu.

NOSON NADOLIGAIDD
Y GYMDEITHAS A CHYLCH Y CHWIORYDD

Fel y bu ein harfer ers aml i flwyddyn bellach cynhaliwyd noson ar y cyd gan Y Gymdeithas a Chylch y Chwiorydd ym Mis Rhagfyr.

"Noson Nadoligaidd" meddai'r rhaglen a'r cyhoeddiad. A dyna'n wir a gafwyd.

Cyflwynodd "Clychau'r Grug" amrywiaeth eang o garolau a chaneuon – rhai'n gyfarwydd a rhai'n newydd iawn i ni. Crewyd awyrgylch hynod o addas i gyfnod yr Adfent gan ein paratoi ar gyfer Gŵyl y Geni.

Cawsom ni'r fraint o ymuno efo nhw i ganu rhai carolau a chawsom fedli o garolau o amryw o wledydd gyda chyflwyniad diddorol am arferion Nadoligaidd y gwledydd rheiny.

Roedd ôl paratoi manwl ar y cyfan a'r parti'n ymateb yn sensitif i'w harweinydd, Mrs. Glenys Griffiths bob amser.

Mae'n arferiad gan y parti wahodd person ifanc ar gychwyn ei gyrfa i gymryd rhan yn eu cyngherddau a hyfrydwch pur oedd gwrando ar Catrin yn cyflwyno'i chaneuon a'i mam, Siân Gibson, yn cyfeilio iddi – ac yn ymuno yn y canu hefyd ambell waith.

Wedi creu'r awyrgylch hyfryd yna yn y capel cafwyd orig hamddenol, gynnes yn eu cwmni yn y festri uwchben 'paned a mins pei.

Diolch i chi, "Glychau'r Grug" a brysiwch yma eto.

DOD Â WILLIAM ROBERTS AT EI GOED!

BRUCE GRIFFITHS

Nid ymddengys fod mynediad Anne [ei chwaer] a'i mam at grefydd wedi effeithio nemor ar feddwl William, oblegid dilyn ei gwrs pechadurus yr oedd ef fel o'r blaen. Arferai ... fynd i gyfarfodydd a elwid yn 'nosweithiau llawen'... a gynhelid yn fynych pan oedd ef yn ddyn ieuanc ...Y prif le y cynhelid y cyfarfodydd hyn ynddo, ydoedd tŷ un o'r enw Siôn Robert Rolant, yr hwn oedd wedi hynodi ei hun fel masweddwr. I'r tŷ yma, gerllaw Eglwys Eilian, y cyrchai ieuenctid y gymdogaeth, ar hirnos gaeaf, i gynnal nosweithiau llawen. I gael goleuni ... yr oedd yn rhaid i bob aelod, yn ei dro, ddarpar cannwyll. Rhyw bryd, digwyddodd fod gweinidog dieithr i bregethu ym Mhorth Amlwch, yr un adeg ag yr oedd y noswaith lawen i'w chynnal yn nhŷ Sion Robert Rolant. Ymbaratoai Anne a'i mam i fynd i'r capel, a gofynasant i William a ddeuai ef gyda hwynt. Eisteddai ar fainc gerllaw, ac meddai, gan afael yn ffyrnig yng nghoes y bwrdd yn ei ymyl, 'dof, pan ddaw hwn i'm canlyn yno!' Mynd i'r capel yn lle i'r noswaith lawen! Cyfarfod yr oedd ef i lanw cymaint o le, ac yn disgwyl cael cymaint o fwynhad ynddo, a chyfarfod i'w oleuo gan ei gannwyll ef: dim o'r fath beth!

Cychwynnodd y ferch a'r fam am y capel, ac aeth William, gan garlamu ar eu lledol, tua'i gyfarfod yntau, a'i gannwyll yn ei logell. Cyn mynd ymhell o'r man yr oedd ei ffordd ef a'u ffordd hwy'n ymwahanu, meddyliodd fod rhyw ddrychiolaeth yn ymaflyd ynddo, ac yn ei ddirwasgu, nes tybiai nad oedd ffun anadl yn aros ynddo.

Dychrynodd yn ddirfawr; plannodd y gannwyll yn ochr y clawdd, ac aeth nerth ei draed tua chapel y Borth.

Er hynny, nid ymddengys i'r dychryn ar y ffordd ... atal yn hollol rwysg pechadurus ei fywyd. Dychwelai adref o Amlwch yn hwyr iawn un noswaith, onid yn blygeiniol drannoeth, ar ôl rhyw ddrygfoes neu'i gilydd, pan, er ei ddychryn, ar barc mawr y Maendriw, ger ei gartref, teimlodd rywbeth arswydol yn ymaflyd ynddo, gan ei godymu a'i lusgo o amgylch y parc, a'i adael yno yn hanner marw. Hwyrach nad oedd dim yn y naill amgylchiad a'r llall ond meddwl euog ... O'r ochr arall, credu' r ydym ... fod mwy o bethau yn y nef a'r ddaear nag y mae athroniaeth sychlyd rhai yn ei ganiatáu. Beth bynnag am hynny ... dofwyd ei feddwl gorwyllt, gadawodd ei hen lwybrau, ac ymroes i fywyd sobr ... Dechreuodd wrando pregethau, a diau iddo, drwy hynny, brofi argyhoeddiad grymus anghyffredin ...

[Codwyd o Cofiant y Parch W.Roberts, Amlwch, gan y Parch H.Jones, Amlwch: Llanerchymedd, 1869. Ym mhennod V ceir peth o hanes ei garwriaeth â Sarah Jones, merch Gwernhywel. Darllener Merch Gwern Hywel, nofel J.Saunders Lewis. -B.G.]

ÔL-NODYN

BERYL STAFFORD WILLIAMS

Yn y Rhyfel Mawr roedd fy nhad, Stafford Thomas, un o Borthmadog, yn wrthwynebydd cydwybodol. Myfyriwr yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd ydoedd o pan anfonwyd o i Wormwood Scrubs yn gyntaf ac yna i un neu ddau o garchardai eraill yng ngogledd Lloegr. Yn 1917 roedd yn Knutsford. Ar y pryd yr hyn a elwid yn Ganolfan Waith oedd yr hen garchar yn fanno, lle i wrthwynebwyr cydwybodol yn unig, yn eu plith yr heddychwr George M Ll Davies. Doedd pethau ddim yn mynd o'n plaid yn y rhyfel yn 1917: colledion mawr a hyd yn oed ofnau y caem ein trechu.Yn wyneb hyn cododd dicter yn y dref yn erbyn y gwrthwynebwyr wrth eu cannoedd yn eu mysg

Gwrthododd y masnachwyr gyflenwi bwyd a nwyddau iddynt ac ar nos Sul amgylchynwyd y carchar gan dorf fileing a oedd fel môr tymhestlog o'i gwmpas. Yr oedd yn warchae.

Drannoeth, wrth iddi nosi, roedd tren yn aros am y carcharorion mewn seidin, i'w hebrwng i garchar anial Dartmoor, ymhell o unrhyw dref. Siwrnai faith, wedi ei threfnu ar fyrder, a gallwn dybio y byddai'n un anodd a throfaus. Yn ddim pellach na gorsaf Crewe, eu stop cyntaf, roedd nifer o ferched o ffatri arfau rhyfel yn aros amdanynt yn barod i ymosod ond symudwyd y cerbydau ymlaen yn sydyn i'r tywyllwch.

Erbyn y diwrnod canlynol roeddynt yn newid trên yng Nghaerdydd. Cyd-ddigwyddai fod Lloyd George yntau wedi cyrraedd gorsaf Caerdydd, o bosib ar gychwyn rali recriwtio, a llwyfan wedi' i godi ar gyfer yr anerchiadau. Ymddangosodd y gwrthwynebwyr o rywle, yn eu lifrai carchar. Cerddai fy nhad gyda GMLlD heibio i gwr y llwyfan ac ymlaen tua'u trên arbennig.

"Mr Davies!" meddai llais benywaidd.

Troi, a gweld Margaret Lloyd George, gwraig y Prif Weinidog, wedi dod i lawr oddi ar y llwyfan i gyfarch yr heddychwr adnabyddus.

"Mae'n dda gen i'ch gweld," meddai, ac ysgwyd llaw gyda'r ddau ohonynt cyn dychwelyd i'w lle. Ac ymlaen â'r fintai i dorri cerrig yn Dartmoor.

Yn 1949 cofiaf fy nhad yn mynd i angladd George M Ll Davies yn Nolwyddelan. Bu farw'n sydyn, drwy wneud amdano'i hun.Ymhlith y galarwyr roedd Kate Roberts ac meddai'n ofidus wrth gyfarch fy nhad, *"Job,'te?"* Buont yn gyfeillion, fy nhad a hithau, ers dau ddegau'r ganrif yn Aberdâr, y hi'n athrawes yn Ysgol Uwchradd y Genethod yno ac yntau'n weinidog gyda'r Hen Gorff; bellach roedd o'n gweinidogaethu ym Mhenmaenmawr, ymysg chwarelwyr, ac yn gyfarwydd â'r defnydd o'r gair 'job'. Fe'i harferid yn ardaloedd chwarelyddol Arfon, llefydd oedd yn gynefin ag anaf a marwolaeth sydyn a llwch andwyol. Ni chlywais neb yn ei

arfer ers tro; er hynny, a minnau wedi fy magu yn Pen, deil yn rhan ohonof.

"Job, 'te?" Mewn print, fel hyn, gall ymddangos yn foel a rhyddieithol ond mae 'dagrau pethau' y tu ôl i'r dweud. Llawer mewn ychydig.

Y GORNEL WEDDI

GAN UN O'N HAELODAU

AR DDECHRAU BLWYDDYN

Ar ddechrau blwyddyn newydd
boed i mi ddechrau gweld o'r newydd
y dylwn ymroi i ddilyn f'Arglwydd yn fwy ffyddlon
ddydd ar ôl dydd,
wythnos ar ôl wythnos,
fis ar ôl mis.

Wrth i'r dydd ymestyn
boed i mi ymestyn at eraill,
at y plant,
at y bobl ieuainc,
at y canol oed,
at bobl hŷn.

Wrth i'r tywydd gynhesu
boed i mi gynhesu at fy nghyd-ddyn,
at y rhai sy'n oer,
sy'n unig,
sy'n wael,
sy'n ddiobaith.

Wrth i fywyd newydd godi o'r pridd
boed i mi adnewyddu f'egni i helpu eraill,
i estyn llaw,
i redeg neges,
i gario baich,
i sirioli'r byd o'm cwmpas.

Gweddïaf am nerth, awydd a brwdfrydedd
i redeg yr yrfa gydol 2015. Amen.

BUGEILIAID Y STRYD

PAUL ROWLINSON

Mae Bugeiliaid Stryd Bangor yn mynd o nerth o nerth; cafodd un ar ddeg o wirfoddolwyr newydd eu comisiynu ym mis Tachwedd a bydd pedwar arall yn dechrau eu hyfforddiant y mis hwn. Gyda mwy o wirfoddolwyr gallwn roi tîm ar y stryd yn amlach – yn ogystal â'n patrôl bob nos Wener byddwn wrthi ar y rhan fwyaf o nosweithiau Sadwrn, yn mynd â'r eglwys allan at y bobl, yn cynnig gofal bugeiliol, clust i wrando a chymorth ymarferol i'r rhai sydd â'i angen.

Yn ystod Wythnos y Glas ym mis Medi buom allan am bedair noson, gan helpu i sicrhau bod myfyrwyr newydd sy'n dechrau ar eu cwrs prifysgol ym Mangor yn fwy diogel wrth fynd am noson allan yn eu hwythnos gyntaf mewn dinas anghyfarwydd.

Gofynnodd yr heddlu i ni helpu ym Môn hefyd dros gyfnod y Nadolig. Ar "nos Wener Wallgof" sef y nos Wener olaf cyn y Nadolig pan fydd llawer mwy o bobl yn mynd allan nag arfer a phan fydd helynt yn aml yn digwydd oherwydd goryfed, roedd gennym ni dri thîm allan, un ym Mangor fel arfer a dau arall yn mentro i Borthaethwy a Chaergybi am y tro cyntaf. Er bod Bangor yn arbennig yn brysur iawn, ni chafwyd helynt difrifol yn unrhyw un o'r trefi.

Gyda mwy o weithgarwch, mae angen mwy o gefnogaeth drwy weddi, yn enwedig gan y rhai sy'n mynd i Gapel Penuel rhwng 10 ac 1 o'r gloch i weddïo dros y tîm sydd allan y noson honno a pharatoi byrbryd iddynt. Os gallwch helpu fel hyn un noson, ffoniwch y rhif (01248) 605365 neu anfonwch neges i bangor@streetpastors.org.uk. Rydym hefyd yn anfon dyddiadur gweddi trwy e-bost bob pythefnos gyda phwyntiau i'w cofio yn eich gweddïau. Os hoffech ei dderbyn, rhowch wybod inni.

BYD MARY JONES WORLD

YR ARDDANGOSFA YN EGLWYS LLANYCIL, Y BALA

WILLIAM H. OWEN

Wythnos cyn iddynt gau am y gaeaf dyma ymweld â Byd Mary Jones World. Y tro diwethaf i mi fynd i Eglwys Beuno Sant, Llanycil roedd y drws ar glo. Heibio adeilad fydd yn ystafell ddosbarth a chaffi erbyn y gwanwyn y mae'r llwybr at fynedfa'r eglwys, o faes parcio newydd. Y peth trawiadol cyntaf oedd y drws gwydr a roddai wedd o foderniaeth i'r hen adeilad. Yn syth mae rhywun yn ymwybodol o'r ôl gwario sydd wedi bod yno i wneud Byd Mary Jones World yn atyniad i ymwelwyr a phlant. Mae'n hawdd gweld fod eu llygad ar ddenu tripiau

Fideo yn cyflwyno'r stori yw un o'r pethau cyntaf i'w weld. Nid yw'r ferch yn droednoeth. Gwisgai bâr o glocsiau i grwydro'r eangderau o Lanfihangel y Pennant. Dychmygais yr holl blant a ddaw yno'n dweud, "Miss, oeddach chi'n deud fod Mary Jones wedi cerdded heb ddim am ei thraed."

Dyn Bacha'i O'ma ers talwm yw Thomas Charles. Does yr un o'r ddau yn cael dweud gair a dwi'n siŵr y byddai Alwyn Sion wedi ymddwyn yn fwy naturiol petai wedi cael agor ei geg. Lluniau gyda geiriau yn Gymraeg neu Saesneg sy'n egluro'r stori.

Mae dewis iaith ar yr holl sgriniau a ddarparwyd i gyflwyno'r hanes ond eu bod yn dal i drefnu i gael y Gymraeg i weithio ar bob un ohonynt. Efallai eu bod wedi gweld mai yn Saesneg yr ysgrifennai Mary Jones ar Feibl Cymraeg Thomas Charles, y gwelir atgynhyrchiad ohono yn yr arddangosfa.

Doeddwn i ddim yn siŵr a oeddwn am gael gwybod am atyniadau eraill yr ardal ar y sgriniau. Byddai gadael hynny i'r ganolfan ymwelwyr agosaf wedi gwneud y tro i mi. Serch hynny mae Cymdeithas y Beibl wedi creu arddangosfa ddifyr i gyfleu stori syml Mary Jones a dangos sut mae'r Beibl wedi dod yn rhan o fywyd cenhedloedd eraill drwy'r byd.

GWASANAETHAU NADOLIG

Ar fore Sul, 21 Rhagfyr, braf oedd gweld rhai o ieuenctid y capel yn cymryd rhan mewn gwasanaeth Nadolig a hynny dan arweiniad medrus Mr Arfon Evans. Cawsom glywed nifer o ddarlleniadau o'r Ysgrythur ynghyd ag ambell gerdd a gweddi, gyda'r gynulleidfa yn ymuno i ganu carolau.

Gyda'r nos roedd y plant iau yn perfformio eu drama Nadolig a oedd yn cyflwyno hanes y geni drwy lygaid yr angylion – a rhai o'r rheini'n angylion hynod o fodern yr olwg gyda sbectols haul a ffonau symudol! Roedd hi'n ddrama a oedd yn symud yn ôl a blaen mewn amser fel y dynodai'r defnydd mewn ambell fan o gerddoriaeth Dr Who! Roedd y cyfan yn werth chweil, a'r gwaith caled yn ystod y Suliau cynt wedi talu ar ei ganfed. Roedd presenoldeb y band pres yn gaffaeliad mawr i'r gwasanaeth fel arfer.

Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y ddau wasanaeth.

Uchod: Sêr y ddrama

Dde: Mr Arfon Evans, Sara, Lea, Cadi, Siwan, Daniel, Carwyn, Tomos a Guto

UN DAITH, TRI UCHAFBWYNT

SARA ALIS WILIAM

Mae'n anodd credu bod dau fis wedi mynd heibio ers i mi ddod nôl o'r Wladfa! Bu'n brofiad anhygoel ac yn un y gwnaf ei drysori am byth; gwnes ffrindiau oes ar y daith gyda phobl ifanc o bob cwr o Gymru. Anodd yw dewis fy uchafbwyntiau, ond yn sicr mae sawl profiad melys yn aros yn y cof.

Roedd cael mynd i ymweld ag Ysgol yr Hendre, Trelew yn hollol swreal. Cerddais i mewn a gweld llond lle o waith Cymraeg plant ar y waliau, a minnau yn Ne America! Gwelais ddarnau o waith ar y Mabinogi yn llyfrau'r disgyblion; fel ni, maen' nhw yn ymhyfrydu yn hanes Cymru, er nad oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi bod yno. Braf wedyn oedd cael gwneud gweithgareddau â'r plant i gyd drwy'r Gymraeg, a chael gweld y plant yn siarad yr un iaith â ni yn rhugl. Roedd yn obaith i mi yn bersonol, wrth weld bod yr iaith leiafrifol yn gallu goroesi yr ochr arall i'r byd.

Cael cymryd rhan yn yr Eisteddfod oedd uchafbwynt arall y daith; mor wahanol oedd y drefn yno o gymharu â ni yma yng Nghymru. Roedd gweld brodorion yn cystadlu yn Sbaeneg a Chymraeg mor ddiddorol; doedd dim math o Saesneg ar gyfyl y lle! Cefais fwynhad yn canu 'Adre' ar y llwyfan, a dod yn ail yn y gystadleuaeth, oedd yn dipyn o sioc! Braf hefyd oedd cael gweld dau aelod o gapel Berea Newydd yn y gynulleidfa, yn wir yn gwneud i mi deimlo fel petawn i 'adre' tra oeddwn yn canu! Roedd yn hyfryd eich gweld, Mr a Mrs Gwilym Roberts.

Uchafbwynt arall a gwahanol iawn oedd cael cyfarfod teulu yn y Gaiman; rhywbeth nad oeddwn yn ei ddisgwyl cyn mynd! Roedd yn fwy o syndod i mi weld y perthynas yma, sef Esyllt Nest Roberts de Lewis, yn ennill y Gadair yn Eisteddfod Chubut! Mi fydda i yn sicr o gadw mewn cysylltiad â'r teulu draw yno.

Hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'm galluogi i fynd ar y daith arbennig hon; diolch ichi am eich haelioni.

Os daw cyfle i'ch rhan i fynd i Batagonia, yn enwedig eleni wrth iddyn nhw ddathlu 150 o flynyddoedd yno, ewch ar bob cyfri... ac mi ddo' innau i gario eich bagiau!

SALM AC EMYN

	EMYN		SALM	
CHWEFROR 1	59	Eleri Roberts	150	Llio Eurgain
CHWEFROR 8	417	Rhys Roberts	113, 1–4	Gwen Roberts
MAWRTH 1	418	Alys McCann	111	Iolo Evans
MAWRTH 8	417	Danial Jones	92	Guto Davies
MAWRTH 15	416	Fflur Edwards	84	Catrin Edwards
MAWRTH 22	51	Rhys Owen	148	Ela Vaughan

Diolch yn fawr am eich cyfraniad.
Os ydyw plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall, hysbyser Kathy - kathysion@btinternet.com neu 364957. Diolch.

CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES

SUT UN YDI DUW I EDRYCH ARNO?

Cyrhaeddodd tad adref o'i waith un gyda'r nos i weld ei fab bychan yn brysur yn gwneud llun.
"Llun o be ti'n 'neud?"gofynnodd.
"Llun Duw" meddai'r bychan.
Gwenodd y tad a dweud, "Ond fedri di ddim gwneud hynny, does neb yn gwybod sut mae Duw'n edrych."
"Mi fyddan nhw cyn hir," atebodd y bychan,
"dwi bron â gorffen."

Y DIGWYDDIADUR

CHWEFROR	
	BORE SADWRN CYNTAF POB MIS YM MHENUEL - COFFI A STONDINAU TRAIDCRAFT
Mercher 4, 2.00yp	BEREA NEWYDD: Cymdeithas y Chwiorydd: 'John Iorc'. Sgwrs gan Brenda Wyn Jones.
Iau 5, 7.30yh	BEREA NEWYDD: Cyfarfod Blynyddol Cytûn gyda siaradwr
Iau 12, 7.00yh	BEREA NEWYDD: Cymdeithas Berea: Rhys Mwyn 'Beth yw Archeoleg'. *Noddir y noson gan Lenyddiaeth Cymru.*
MAWRTH	
Mawrth 4, 7.00yh	BEREA NEWYDD: Cymdeithas y Chwiorydd: Sgwrs gan y Dr Elin Walker Jones.
Gwener 6yh	**DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD**
Iau 12, 6.30yh	BEREA NEWYDD: Cinio Gwŷl Ddewi. Gŵr Gwadd - Y Parch. W.R. Williams, Y Felinheli.
EBRILL	
Gwener 3. 10.00yb	BEREA NEWYDD: Gwasanaeth y Groglith
Llun 6-11	CRICIETH: Gŵyl Gristnogol gyd-enwadol Llanw yng
Gwener 24-26	COLEG Y BALA: Penwythnos i ieuenctid 11-18 oed
	I'w drefnu: Berea Newydd: Cym. y Chwiorydd: Noson Goffi ar y cyd â'r Ysgol Sul a CIC Bang.
MAI	
Mawrth 5, 10yb	SEILO, LLANDUDNO: Cynhadledd Undeb Athrofa'r Bala Thema: 'Cymorth i Farw'. Agorir yn erbyn gan Ei Anrhydedd Eifion Roberts Q.C.D.L LL.D., ac o blaid, Y Parch John Gwilym Jones MA BD. Croeso cynnes i bawb
Mawrth 12	LLANDUDNO - Sasiwn Chwiorydd y Gogledd.
Sul 10-16	Wythnos Cymorth Cristnogol

OES GENNYCH CHI SYNIAD, SYLW, LLUN NEU UNRHYW GYFRANIAD YR HOFFECH EU RHANNU GYDA DARLLENWYR *ICHTHUS*? Y 12fed O EBRILL YW'R DYDDIAD OLAF AR GYFER EU DERBYN

E-BOST: *gdeiniol@hotmail.com* **neu** *capelberea@gmail.com*
LLYTHYR: *4 Goleufryn, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2LY*

RHAI O GYMERIADAU Y DDRAMA NADOLIG